Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Clwyd

**Eppynt Road**
**Penlan**
**Abertawe**
**SA5 7AZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Clwyd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Clwyd |
| Awdurdod lleol | Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 365 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 264 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 62 |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%)* | 55.4% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 64% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 14.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 13-11-2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae bron pob disgybl yn mwynhau mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Clwyd ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. O fannau cychwyn cymharol isel pan fyddant yn ymuno â'r ysgol am y tro cyntaf, maent yn adeiladu ystod o fedrau a strategaethau sy'n eu cynorthwyo i wneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu ac yn eu datblygiad cyffredinol fel pobl ifanc hyderus ac uchelgeisiol. Mae disgyblion yn falch o berthyn i'r ysgol ac yn chwarae rôl amlwg mewn llunio a dylanwadu ar ei bywyd a gwaith. Yn erbyn cefnlen y pandemig diweddar a'r heriau y mae disgyblion a'r gymuned wedi'u hwynebu, mae cynnydd disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn nodedig.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod gyfoethog, eang a chytbwys o brofiadau dysgu a darpariaeth ychwanegol. Mae hyn yn bodloni anghenion a diddordebau addysgol ac ehangach disgyblion yn dda iawn. Mae athrawon yn sicrhau bod bron yr holl ddysgu'n bwrpasol a, lle bynnag y bo'n bosibl, ei fod yn galluogi disgyblion i ddefnyddio medrau presennol neu newydd mewn cyd-destunau go iawn. Mae hyn yn golygu, wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, eu bod yn datblygu dealltwriaeth gadarn o berthnasedd a phwysigrwydd eu dysgu. Mae gan athrawon a staff cymorth fedrau a gwybodaeth broffesiynol gref iawn. Mae hyn yn cynnwys medrau arbenigol, er enghraifft yng nghyfleusterau addysgu arbenigol yr ysgol, sy'n eu galluogi i deilwra darpariaeth i anghenion unigolion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n herio disgyblion ar y lefel briodol. Mewn ychydig o achosion, mae staff yn colli cyfleoedd i ddisgyblion iau ddysgu drwy chwarae a datblygu eu hannibyniaeth. Mae'r gofal, cymorth ac arweiniad sy'n cael eu rhoi i ddisgyblion yn rhagorol ac yn eu cynorthwyo i ffynnu yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yr ysgol yn gosod naws uchelgeisiol a chadarnhaol ar gyfer gwaith yr ysgol. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynorthwyo disgyblion a theuluoedd i ffynnu. Mae partneriaethau â rhieni ac asiantaethau arbenigol yn hynod effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth tra chadarnhaol i gymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn gynhwysol ac yn trin yr holl ddisgyblion a theuluoedd â gofal, cwrteisi a pharch drwy ei gweithredoedd a'r cyfleoedd mae'n eu cynnig. Mae arweinwyr yr ysgol yn hyrwyddo cydweithio a gwaith tîm yn dda iawn. Mae hyn yn cynorthwyo'r ysgol i gynllunio strategaeth wella a'i rhoi ar waith yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adolygu ei chynnydd tuag at nodau gwella yn rheolaidd, er nad yw gweithgarwch monitro'n canolbwyntio'n ddigon miniog bob tro ar y gwahaniaeth mae'r gwaith gwella hwn yn ei wneud i ddisgyblion. O ganlyniad, caiff ychydig o gyfleoedd i sbarduno rhagor o welliant ym medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion eu colli ambell waith.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn gwerthuso’r gwahaniaeth y mae mentrau gwella a darpariaeth o ddydd i ddydd yn ei wneud i gynnydd disgyblion

A2 Sicrhau bod profiadau dysgu a’r amgylchedd dysgu yn hyrwyddo chwarae rhydd, creadigrwydd ac annibyniaeth i ddisgyblion iau

A3 Mynd i’r afael â’r mater diogelwch ar y safle a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau disgyblion ar sail dibenion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn Ysgol Gynradd Clwyd, mae bron pob un o'r disgyblion yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd a disgyblion yng nghyfleusterau addysgu arbenigol yr ysgol. At ei gilydd, yng nghyd-destun y pandemig diweddar, mae cynnydd disgyblion o ran datblygu a chymhwyso eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn drawiadol.

Pan fydd disgyblion yn ymuno â dosbarth meithrin yr ysgol yn gyntaf, mae gan lawer ohonynt fedrau lleferydd, cyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol cymharol wael. Fodd bynnag, maent yn gwneud cynnydd cyflym, yn ymgartrefu'n gyflym ym mywyd yr ysgol ac yn meithrin perthynas gadarnhaol â staff a'u cyfoedion. Maent yn ymateb yn dda i arferion ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phrofiadau dysgu.

Yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu eu hyder fel siaradwyr. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith a, thros amser, yn dysgu rhoi atebion estynedig i gwestiynau athrawon. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae eu medrau siarad yn gwella'n gynyddol ac yn sylweddol. Mae bron pob un ohonynt yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn siarad yn glir i fynegi eu syniadau, er enghraifft mewn cyfres o bodlediadau o'r enw 'ClwydCast', sy'n rhannu safbwyntiau a gwybodaeth am fywyd yr ysgol a materion cyfredol pwysig. Mae disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn defnyddio ystod o strategaethau'n llwyddiannus i ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio symbolau i ffurfio brawddegau i ymateb i gwestiynau neu wneud dewisiadau.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da mewn datblygu eu medrau Cymraeg ac maent yn magu'r hyder i siarad Cymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd. Mae disgyblion iau yn defnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau cyfarwydd i siarad amdanyn nhw'u hunain a'u teimladau. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn dod yn hyfedr mewn defnyddio brawddegau mwy cymhleth ac ystod ehangach o eirfa, er enghraifft i drafod lle maent yn byw a nodweddion eu teuluoedd.

At ei gilydd, mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n dda. Mae darllenwyr iau yn datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau a sut y caiff seiniau eu cyfuno i ffurfio geiriau. Maent yn dechrau darllen â rhuglder a dealltwriaeth gynyddol. Maent yn dangos mwynhad ynghylch storïau a hanesion traddodiadol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar y cynnydd hwn a, thros amser, yn datblygu ystod dda o strategaethau i ddod yn ddarllenwyr rhugl. Er enghraifft, maent yn defnyddio cliwiau cyd-destunol i weithio allan ystyr geiriau heriol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn enwi eu hoff destunau ac awduron, er bod ystod y llyfrau y maent yn eu darllen yn weddol gul.

O oed ifanc, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at ysgrifennu wrth arbrofi â gwneud marciau. Maent yn mynd ati i ysgrifennu â mwyfwy o ryddid ac annibyniaeth wrth fynegi eu syniadau neu ailadrodd hanesion traddodiadol. Mae disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth dda o nodweddion ffurfiau

gwahanol. Maent yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn bwrpasol mewn llawer o gyd-destunau, er enghraifft i wneud cais am swyddi ar ôl ffair swyddi, i wneud cais am swyddi ar grwpiau llais y disgybl neu i ysgrifennu llythyrau darbwyllol i athrawon i'w hannog i drefnu gwibdeithiau ysgol i ddisgyblion iau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn sillafu neu'n defnyddio atalnodi a gramadeg sylfaenol yn gywir. Mae safon cyflwyniad gwaith disgyblion yn rhy amrywiol.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da o ran datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth fathemategol. Mae disgyblion iau yn defnyddio adnoddau fel ciwbiau a dis yn dda i ddatblygu eu dealltwriaeth gynnar o rif. Maent yn mesur hyd yn gywir gan ddefnyddio unedau safonol, er enghraifft i weithio allan hyd gwallt Rapynsel. Mae disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn gweithio'n dda i gasglu a dehongli data ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o briodweddau siapiau 2D. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn gweithio'n dda â phedair rheol rhif, siâp, mesur ac yn datblygu medrau trin data da. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifiadol i gyd-destunau go iawn yn rheolaidd, er enghraifft i gyfrifo elw a cholled yng nghyd-destun parti.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ac yn defnyddio ystod briodol o fedrau digidol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu codau syml ar gyfer gemau, yn creu graffiau, cronfeydd data a chyflwyniadau sgrin werdd. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol i gefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol yn dda ar y cyd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio eu medrau siarad, rhif a'u medrau digidol i raglennu robot llawr.

Mae disgyblion yn datblygu lefelau priodol o annibyniaeth wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O oed ifanc, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgymryd â thasgau'n annibynnol, er enghraifft i gwblhau heriau a osodwyd. Fodd bynnag, nid yw medrau chwarae a chreadigol disgyblion yn datblygu cystal ag y gallant bob tro. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn oherwydd y caiff tasgau eu strwythuro'n ormodol gan oedolion ac mae cyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd fel rhan o ddysgu cynlluniedig yn weddol gyfyngedig. Mae disgyblion hŷn yn ymgymryd â heriau'n annibynnol, er enghraifft i werthuso ac esbonio'r effaith bosibl y gallai postiadau ar-lein ei chael ar deimladau defnyddwyr. Mae disgyblion yn ymgymryd yn frwd â chyfleoedd creadigol a chyfleoedd i ddatrys problemau mewn perthynas â chyd-destunau go iawn, er enghraifft i greu cartrefi i swricatiaid *(meerkats)* yn y sw lleol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi ailaddasu i fywyd ysgol yn arbennig o dda er mis Medi 2021, ar ôl cyfnod arbennig o heriol. Mae eu gwydnwch a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu yn rhagorol ac wedi'u cynorthwyo i wneud iawn am yr amser a gollwyd yn arbennig o dda. Bron yn ddieithriad, mae disgyblion yn dangos balchder mawr ynddyn nhw'u hunain, eu hysgol a'u gwaith. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu'r cyfleoedd dysgu a gânt ac yn manteisio i'r eithaf ar wersi a'r clybiau a'r gweithgareddau ychwanegol niferus y maent yn eu mynychu'n rheolaidd, a hynny mewn niferoedd da.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n gynyddol llawer o'r rhinweddau sydd eu hangen arnynt i lwyddo fel dysgwyr wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn barod ac yn awyddus i weithio bob amser ac yn canolbwyntio'n dda i gwblhau tasgau.

Maent yn awyddus i ymgymryd â heriau newydd ac yn dangos gwydnwch wrth wneud hynny drwy ddefnyddio ystod o dechnegau i ddal ati pan fydd pethau'n anodd. Er enghraifft, maent yn ceisio datrys problemau ar eu pennau eu hunain drwy ddefnyddio'u medrau neu'r hyn maent yn ei wybod eisoes cyn holi ffrind, athro neu oedolyn arall. Mae bron pob un o'r disgyblion yn magu hyder drwy rannu eu gwaith â phobl eraill yn yr ysgol a'r tu hwnt, er enghraifft drwy bodlediadau. Maent yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol, gwybodus, yn enwedig trwy eu gwaith am faterion cyfredol lleol a byd-eang, fel gwrthdaro neu faterion iechyd diweddar. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r cyfleoedd ystyriol niferus y mae'r ysgol yn eu darparu i roi cynnig ar bethau newydd.

At ei gilydd, mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Mae bron pob un ohonynt yn trin ei gilydd ac oedolion â lefelau uchel o barch bob amser. Maent yn chwarae rôl weithredol mewn hyrwyddo ethos cadarnhaol yn yr ysgol, er enghraifft drwy ymweld â dosbarthiadau ar ôl amseroedd egwyl i ddyfarnu pwyntiau ar gyfer ymddygiad cadarnhaol. Yn ystod gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn caniatáu i ddisgyblion eraill rannu syniadau ac yn dangos parch pan fydd ganddynt farn wahanol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am faterion sy'n peri pryder iddynt neu sy'n effeithio ar eu haddysg, eu hapusrwydd a'u lles. Mae disgyblion yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fod yn ddylanwadol, er enghraifft drwy eu gwaith mewn nifer sylweddol o grwpiau llais y disgybl. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Sgwad Diogelwch a grŵp Parchu Hawliau sy'n helpu disgyblion i gydnabod a hyrwyddo hawliau plant, yn unol ag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dros amser, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hawliau, er enghraifft drwy greu siarteri dosbarth sy'n amlinellu disgwyliadau cytûn i ddisgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr yn yr ysgol. Maent yn hyderus bod yr ysgol wedi'i hymrwymo i'w lles a'u cynorthwyo i ddatblygu a thyfu fel unigolion ac fel aelodau o gymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach. Maent yn dangos brwdfrydedd mawr wrth siarad am yr ystod helaeth o gyfleoedd lles sydd ar gael, fel cymorth llythrennedd emosiynol neu sesiynau mewn grwpiau bach i ddysgu am berthnasoedd cadarnhaol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda iawn i holi effeithiol ac adborth llafar yn ystod gwersi. O ganlyniad, maent yn gwybod sut i wneud gwelliannau i'w gwaith yn ystod gwersi ac mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd da yn gyson. Fodd bynnag, mae ymatebion disgyblion i adborth ysgrifenedig athrawon yn fwy amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn myfyrio'n dda ar eu dysgu, er enghraifft i wirio a yw eu gwaith yn bodloni'r disgwyliadau a amlinellwyd cyn y dasg. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae gallu disgyblion i roi ac ymateb i adborth gan gyfoedion.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n strategol i ddylunio a gweithredu cwricwlwm sy'n cyfateb i egwyddorion ac ethos y Cwricwlwm i Gymru. Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo'n dda cyn dechrau'r pandemig ac mae'n amlwg wedi cael dylanwad cadarnhaol ar gynnydd disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Ers iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar sail amser llawn ym mis Medi 2021, mae disgyblion wedi dangos gallu da i elwa ar eu profiadau dysgu blaenorol, ac mae hyn wedi'u helpu i symud ymlaen yn gyflym dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Mae staff wedi cydweithio â'i gilydd i ddatblygu cwricwlwm pwrpasol, wedi'i sbarduno gan ddibenion, sy'n ymateb yn benodol i gyd-destun unigryw'r ysgol. Mae'n bodloni anghenion a diddordebau ei disgyblion yn dda iawn. At ei gilydd, mae'r addysgu'n llwyddiannus o ran cynorthwyo i roi cwricwlwm yr ysgol ar waith. Yn benodol, mae mantra'r ysgol, sef 'popeth â diben', yn amlinellu'r disgwyliad clir bod staff yn cadw ffocws miniog ar yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni mewn gwersi a thros amser. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r addysgu'n effeithiol ac yn arwain at gynnydd a deilliannau cadarnhaol i ddisgyblion.

Datblygu medrau allweddol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yw asgwrn cefn cwricwlwm yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu'r medrau hyn yn gynyddol, naill ai'n benodol, er enghraifft wrth addysgu disgyblion i ddatblygu medrau darllen cynnar, neu'n rhan o ddysgu trawsgwricwlaidd. Mae athrawon yn cynllunio ystod o bynciau difyr, fel 'Campwaith' *('Masterpiece')*, sydd â phwyslais ar y celfyddydau mynegiannol, a 'Gwreiddiau a Llwybrau' *('Roots and Routes')*, sydd â ffocws ar y dyniaethau. Mae strategaethau arloesol ychwanegol, fel siop dros dro lle mae disgyblion yn gwerthu nwyddau y maent wedi'u gwneud, yn cynorthwyo i ddatblygu medrau disgyblion yn arbennig o dda. Mae disgyblion hŷn yn achub ar y cyfleoedd hyn i ddatblygu eu medrau entrepreneuraidd ac ariannol ac i feithrin dealltwriaeth o wobrau gwaith caled. Gwelant ganlyniadau go iawn am eu hymdrechion. Er enghraifft, rhoddodd yr ysgol yr elw tuag at brynu bws mini sydd bellach yn cynnig y gallu i fanteisio ar brofiadau newydd.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, gwna disgyblion gynnydd nodedig o ran ystod yr eirfa a'r patrymau brawddegau a ddefnyddiant. Mae eu hyder a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig ar ôl y pandemig diweddar, yn glod i ymrwymiad yr ysgol a'i dull o addysgu'r iaith.

Mae timau staff yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu bob wythnos. Mae hyn yn sicrhau cysondeb yn ystod y profiadau dysgu sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion yn y grwpiau oedran gwahanol ar draws yr ysgol. Mae hefyd yn galluogi staff i rannu strategaethau i gyflwyno'r profiadau hyn a myfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda i ddisgyblion a'r hyn a fu'n llai llwyddiannus. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio asesu i lywio'r camau nesaf ar gyfer eu dysgu. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau ac, fel arfer, yn cynorthwyo ac yn herio disgyblion ar y lefel briodol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio staff cymorth, sy'n aml yn cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd ei angen, yn dda. Mae gan bron pob un o'r staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd disgyblion ac yn sicrhau bod dysgu'n symud ymlaen ar gyflymder da. Mae technegau holi effeithiol ac adborth llafar yn

cynorthwyo cynnydd disgyblion yn dda. Mae effaith adborth ysgrifenedig athrawon yn fwy amrywiol.

Lle y bo'n briodol, mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio strategaethau arbenigol i fodloni anghenion disgyblion unigol. Er enghraifft, mae staff yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn defnyddio technegau i gefnogi datblygiad corfforol disgyblion a'u galluogi i gyfleu eu hanghenion a gwneud dewisiadau. Mae systemau ar gyfer olrhain dysgu dros amser yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar les disgyblion a'r cynnydd a wnânt. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo staff i adnabod yr holl ddisgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt â'u dysgu.

Mae athrawon yn gweithio'n unol â llawer o egwyddorion datblygiad plentyndod cynnar. Maent yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer dysgu gweithredol a phrofiadau ymarferol. Fodd bynnag, nid yw'r amgylchedd dysgu i blant iau yn galluogi disgyblion i ddewis neu fynd at eu hadnoddau eu hunain a datblygu eu hannibyniaeth bob tro. Mae darpariaeth agored, fel chwarae rôl a chwarae â blociau, yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda. Fodd bynnag, caiff profiadau dysgu eu cyfarwyddo gan oedolion, ar y cyfan, ac nid oes digon o gyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd fel rhan o'r broses ddysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion archwilio, rhoi cynnig ar bethau a datblygu eu syniadau eu hunain. Mae staff cymorth yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi cynnydd disgyblion ifanc. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, maent yn cynnig gormod o gymorth i ddisgyblion, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd iddynt oresgyn heriau eu hunain a datblygu annibyniaeth.

Er mis Medi, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran ailgyflwyno nifer o agweddau ar ei darpariaeth, gan gynnwys amrywiaeth o ymweliadau addysgol pwrpasol. Er enghraifft, ymwelodd disgyblion iau â llyfrgell Penlan yn ystod eu pwnc 'Un tro' *('Once upon a time')*. Mae ymweliadau â lleoedd fel Copperopolis Tawe, mewn cysylltiad â'u hastudiaethau, yn ehangu gwybodaeth disgyblion am yr amgylchedd lleol a hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad a roddir i ddisgyblion a'u teuluoedd yn rhagorol. Mae'r ysgol yn cadw ffocws cyson ar gynhwysiant a gwella lles pob disgybl. Enghraifft rymus o'r ymrwymiad hwn yw'r *'Super Teams League'*, a gychwynnwyd ac a drefnwyd gan staff yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth arloesol hon yn galluogi disgyblion o'r cyfleusterau addysgu arbenigol i gynrychioli'r ysgol mewn pêl-droed. Bu'r fenter hon yn llwyddiannus dros ben ac mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill sydd â chyfleusterau addysgu arbenigol i ehangu ei gwmpas a'i heffaith.

Mae'r ysgol yn trin grwpiau llais y disgybl â pharch sylweddol ac yn ymddiried ynddynt i arwain newid. Mae amrywiaeth o grwpiau a chynrychiolwyr disgyblion yn cydweithio â'i gilydd i lunio eu cynllun datblygu disgyblion eu hunain, sydd â ffocws ar sut maent yn teimlo y dylai'r ysgol wella ei darpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd ac addysgu a dysgu. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ddemocratiaeth a rôl y llywodraeth. Er enghraifft, cyfarfu grŵp o ddisgyblion â'r Prif Weinidog yn 10 Downing Street yn ddiweddar i drafod newid yn yr hinsawdd.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae staff yn rhoi dull ysgol gyfan ar waith ar gyfer lles, sydd wedi'i deilwra

i anghenion gwahanol bob dosbarth. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dysgu i herio unrhyw ragdybiaethau sydd ganddynt am rywedd a hil.

Ar draws yr ysgol, mae arferion cyfarwydd yn cynorthwyo disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r system 'ailgydio' ar ddechrau'r diwrnod ysgol yn helpu disgyblion i setlo i ddysgu, ac mae 'dal i fyny' ar ddiwedd y dydd yn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y dydd cyn i'r disgyblion fynd adref. Mae gan bob un o'r disgyblion a'r oedolion 'broffil un dudalen' sy'n amlinellu eu diddordebau, sut maent yn hoffi cael eu cynorthwyo i ddysgu a'r pethau maent yn gweithio i'w gwella. Mae'r proffiliau hyn yn dangos y wybodaeth fanwl sydd gan staff yr ysgol am rinweddau unigol pob disgybl ac yn helpu cefnogi dysgu a lles.

Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol i nodi a bodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae cyfarfodydd adolygu rheolaidd yn canolbwyntio ar gynlluniau unigol disgyblion ac yn rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd. Mae gan yr ysgol gynllun a luniwyd yn dda er mwyn pontio'n rhwydd i'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd. Mae darpariaeth i gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gryf ac yn effeithiol ym mhob dosbarth. Mae staff yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynnig cymorth pwrpasol i fodloni anghenion unigol.

Gall disgyblion ym mhob dosbarth fanteisio ar ystod eang o weithgareddau allgyrsiol y maent yn gofyn amdanynt. Mae hyn yn cynnwys trampolinio, cymorth â gwaith cartref, chwynnu a chlwb awduron. Mae'r clybiau hyn yn cyfoethogi lles disgyblion ac yn eu galluogi i ehangu eu gorwelion a datblygu diddordebau newydd. Mae gan yr ysgol hanes cryf o gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, mae athrawon yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill pan fydd plant yn ymuno â'r ysgol o rannau eraill o'r byd. Mae darpariaeth i gefnogi datblygiad ysbrydol disgyblion yn effeithiol. Mae gan yr ysgol berthynas gref â'r eglwys leol ac mae'n sicrhau bod gweithredoedd addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion a gwerthoedd pwysig.

Mae gan yr ysgol ystod gynhwysfawr o strategaethau a phrosesau i hyrwyddo a chefnogi cyfraddau presenoldeb cadarnhaol. Mae'n dangos lefel uchel o ymrwymiad i gadw dysgwyr yn ddiogel drwy ei diwylliant, ethos a'r profiadau dysgu mae'n eu darparu. Yn gyffredinol, mae trefniadau i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion. Fodd bynnag, tynnwyd sylw arweinwyr yr ysgol at fater yn ymwneud â diogelwch y safle yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth hynod effeithiol ac yn gosod naws cadarnhaol dros ben ar gyfer pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae wedi sefydlu ethos cryf o dîm yn yr ysgol. Mae gan arweinwyr a staff yr ysgol ddealltwriaeth gref o anghenion y disgyblion a'r gymuned leol. Maent yn gweithio'n frwd ac ag ymrwymiad i fodloni'r anghenion hyn. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu fywiog. Wrth ei gwraidd, mae diwylliant gofalgar a chynhwysol sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion

ymdeimlad cadarn o berthyn a'u bod yn magu'r hyder a'r medrau i ymgysylltu'n gadarnhaol â phrofiadau dysgu. Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'u hunain a'u staff, yn ogystal ag ar gyfer cynnydd a lles disgyblion. Mae ganddynt ddyheadau uchel, maent yn uchelgeisiol ar gyfer dyfodol y disgyblion ac maent yn chwilio am gyfleoedd i gael dylanwad cadarnhaol ar fywydau disgyblion drwy'r cwricwlwm a phrofiadau ehangach. At ei gilydd, mae arweinwyr yn sefydlu ac yn cynnal diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol.

Mae gwaith yr ysgol mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau cymorth yn rhagorol. Mae ymddiriedaeth sylweddol a chred gytûn bod yr ysgol yn gwneud y peth iawn i ddisgyblion ac yn gweithredu er eu lles pennaf bob amser. Caiff rhieni gyfleoedd i fynychu gweithdai sy'n canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a dysgu fel teulu. Maent hefyd yn mynychu sesiynau gan siaradwyr gwadd ar ystod o bynciau, gan gynnwys iechyd meddwl a gorbryder. Mae asiantaethau arbenigol yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd i gynnig cymorth a chyngor uniongyrchol i rieni. Mae'r caffi sy'n cael ei redeg gan y disgyblion yn galluogi rhieni i gyfarfod â'i gilydd a meithrin perthnasoedd; mae hyn yn arbennig o fuddiol i'r disgyblion hynny yn y cyfleuster addysgu arbenigol, sy'n aml yn byw y tu allan i ddalgylch traddodiadol yr ysgol. Mae staff yr ysgol yn cynnig cymorth i rieni mewn modd sensitif, er enghraifft i reoli ymddygiad. Mae rhieni hefyd yn cael cyfleoedd da i ddylanwadu ar faterion sydd o ddiddordeb iddynt drwy ystod o grwpiau rhieni.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o gydweithio a chymorth ymhlith y staff. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso, eu cynorthwyo a bod arweinwyr yn ymddiried ynddynt. Maent yn ymateb yn dda i'r diwylliant tîm hwn, fel sydd i'w weld yn eu gwaith i gynllunio gwersi, dilyniannau o wersi a themâu i sicrhau cysondeb yn yr arlwy dysgu i ddisgyblion. Mae staff yn cydweithio'n dda â phobl y tu hwnt i'r ysgol. Er enghraifft, maent yn gweithio'n fwriadus ag ysgolion eraill sydd â chyfleusterau addysgu arbenigol i wella agweddau ar addysgeg ac i ddatblygu darpariaeth llythrennedd a rhifedd yn y clwstwr o ysgolion lleol.

Mae'r strwythur arweinyddiaeth a dosraniad y rolau a'r cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn cefnogi awch yr ysgol i wella'n barhaus. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol staff yn cefnogi'r dyheadau hyn yn dda. Mae arweinwyr yr ysgol yn ymoi i ddatblygu staff. Maent yn creu cyfleoedd i athrawon dyfu i mewn i rolau arweinyddiaeth ac i staff cymorth symud ymlaen yn eu gyrfaoedd, er enghraifft drwy gefnogi cynorthwywyr addysgu i gymhwyso'n athrawon.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae hyn yn cynnwys y Cwricwlwm i Gymru, diwygio anghenion dysgu ychwanegol ac adfer ar ôl y pandemig. Mae cynlluniau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd yn dda. Mae ymdeimlad cryf ymhlith yr holl staff o gyfeiriad strategol cytûn a chyfrifoldeb am gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Fel tîm, maent yn rhoi'r blaenoriaethau hyn ar waith yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr wedi achub ar y cyfle i ddatblygu cwricwlwm wedi'i sbarduno gan ddibenion, yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o ddiben y cwricwlwm yng nghyd-destun Ysgol Gynradd Clwyd a'r gymuned mae'n ei gwasanaethu. Mae arweinwyr wedi datblygu dull unigryw sy'n

cynorthwyo staff i gynllunio a chyflwyno gwersi a phrofiadau yn effeithiol i gefnogi cynnydd a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol hanes da o roi mentrau gwella ar waith a’u cynnal. Mae’r diwylliant hwn o welliant parhaus a natur ymwreiddiedig strategaethau effeithiol yn golygu bod gan yr ysgol sylfeini sefydledig i adeiladu arnynt pan ailagorodd yn llawn ym mis Medi 2021. Mae arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn dewis y meysydd mwyaf priodol i’r gwella, gan sicrhau eu bod yn mynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus. Caiff disgyblion ddylanwad priodol ar waith gwella’r ysgol drwy gynllun gwella’r disgyblion.

Mae trefniadau i fonitro gwaith yr ysgol yn cynnwys arweinwyr, llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni yn briodol. Mae arweinwyr yn defnyddio gweithgareddau monitro’n dda i sicrhau bod gwaith gwella’n digwydd. Fodd bynnag, nid yw’r gwaith hwn yn canolbwyntio’n ddigon miniog bob tro ar werthuso effaith camau gweithredu’r ysgol ar wella’r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud a’r safonau maent yn eu cyflawni.

Mae’r corff llywodraethol yn deall ac yn cyflawni ei ddyletswyddau’n effeithiol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau’r ysgol a’r sail resymegol y tu ôl iddynt. Maent yn deall eu rôl o ran cynorthwyo’r ysgol i roi ei strategaeth wella ar waith. Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn gyfrifol am y ganolfan blant sy’n gysylltiedig â’r ysgol, ac mae hyn yn hyrwyddo cydweithio cadarnhaol â’r lleoliad cyn-ysgol. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu’n briodol ar weithgarwch monitro ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gynnydd yr ysgol wrth roi gwaith gwella ar waith. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r ysgol yn defnyddio cyllid ei grant datblygu disgyblion yn effeithiol i sicrhau lefelau uchel o gymorth i ddisgyblion difreintiedig ac i gynnig profiadau iddynt efallai na fyddant yn eu cael fel arall. Mae profiadau’n cynnwys gweithgareddau datblygu tîm, fel dringo creigiau, sgrialfyrddio, syrffio a gweithio ag awduron ac artistiaid. Mae’r profiadau hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o’r hyn sydd gan y byd i’w gynnig ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu medrau a diddordebau newydd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/05/2022